**Rhif: WG52477**

Llywodraeth Cymru

# Dyddiadau tymhorau ysgol ar gyfer 2026 i 2027 - Ymgynghoriad - crynodeb o'r ymatebion

Cynigion dyddiadau tymhorau ar gyfer pob ysgol a gynhelir ar gyfer y flwyddyn ysgol 2026 i 2027

25 Mehefin 2025

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol

## Trosolwg

Mae awdurdodau lleol wedi rhoi gwybod i Weinidogion Cymru beth yw eu dyddiadau arfaethedig ar gyfer tymhorau ysgol yn 2026-27 i bob ysgol a gynhelir yn eu hardaloedd penodol. Mae hyn yn ofyniad yn Rheoliadau Addysg (Hysbysu am Ddyddiadau Tymhorau Ysgol) (Cymru) 2014 ac mae'n cynnwys dyddiadau tymhorau a bennwyd gan ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig yn ogystal â'r dyddiadau a bennwyd gan awdurdodau lleol ar gyfer pob ysgol arall a gynhelir yn eu hardaloedd.

Roedd Gweinidogion Cymru o'r farn nad oedd dyddiadau'r tymhorau yr un fath nac mor debyg i'w gilydd â phosibl. O ganlyniad, ystyriodd Gweinidogion Cymru ddefnyddio eu pwerau o dan Ddeddf Addysg 2002 ("Deddf 2002") i gysoni dyddiadau tymhorau ar gyfer blwyddyn ysgol 2026-27. O dan Ddeddf 2002 a Rheoliadau Addysg (Ymgynghori ar Ddyddiadau Tymhorau Ysgol) 2014, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori ar gynigion o'r fath.

Roedd yr ymgynghoriad hwn yn gofyn am farn ar y dyddiadau arfaethedig ar gyfer 2026-27 a'r cyfarwyddyd drafft cysylltiedig a amlinellir isod.

## Camau i'w cymryd

Dogfen er gwybodaeth yn unig yw hon.

Nodi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar gyfer dyddiadau'r tymhorau ysgol yn 2026 i 2027.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Gallwch weld y dogfennau crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar wefan Llywodraeth Cymru:

https://llyw.cymru/ymgyngoriadau

Deddf Addysg (Cymru) 2002

Rheoliadau Addysg (Hysbysu am Ddyddiadau Tymhorau Ysgol) (Cymru) 2014

Rheoliadau Addysg (Ymgynghori ar Ddyddiadau Tymhorau Ysgol) (Cymru) 2014

Gallwch weld y ddogfen crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar wefan Llywodraeth Cymru www.llyw.cymru/ymgyngoriadau

## Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

Y Gangen Llywodraethiant, Trefniadaeth a Derbyniadau i Ysgolion
Is-adran Seilwaith Addysg, Llywodraethu a Chyllid y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: SGOA@llyw.cymru

## Copïau ychwanegol

Mae'r crynodeb hwn o'r ymatebion a'r holl ddogfennau ymgynghori wedi'u cyhoeddi ar ffurf electronig yn unig. Maent ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.
Dolen at y ddogfen ymgynghori: hyperlink

## Cyflwyniad

Yn 2014, gwnaeth Llywodraeth Cymru ddeddfwriaeth gyda'r nod o sicrhau bod dyddiadau tymhorau a gwyliau ysgol ledled Cymru yr un fath neu mor debyg i'w gilydd ag y bo modd.

Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am farn ar y dyddiadau tymhorau arfaethedig ar gyfer pob ysgol a gynhelir yng Nghymru ar gyfer y flwyddyn ysgol 2026-27, a'r cyfarwyddyd drafft cysylltiedig.

## Y ddeddfwriaeth:

Mae gan awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir ("cyrff llywodraethu perthnasol") ddyletswydd i bennu dyddiadau tymhorau ar gyfer eu hysgolion. Maent hefyd o dan ddyletswydd i gydweithio wrth benderfynu ar ddyddiadau tymhorau fel eu bod yr un fath neu mor debyg â phosibl i rai eraill. Os, er gwaethaf pob ymdrech, nad oes modd cytuno ar ddyddiadau tymhorau, mae adran 32B o Ddeddf Addysg 2002 ("Deddf 2002") yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru i roi cyfarwyddyd i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu perthnasol ar y dyddiadau y mae'n ofynnol iddynt eu defnyddio er mwyn cysoni dyddiadau tymhorau ledled Cymru. Nid yw'r pŵer yn yr adran honno wedi ei gyfyngu i sicrhau dyddiadau sydd yr un fath neu mor debyg i'w gilydd â phosibl yn unig, ond mae'n ddigon eang fel bod modd ei ddefnyddio at y perwyl hwnnw.

Mae Rheoliadau Addysg (Hysbysu am Ddyddiadau Tymhorau Ysgol) (Cymru) 2014 yn darparu bod rhaid i awdurdodau lleol hysbysu Gweinidogion Cymru o'r dyddiadau tymor a bennir ar gyfer pob ysgol a gynhelir yn eu hardaloedd erbyn y diwrnod gwaith olaf ym mis Awst ddwy flynedd cyn y flwyddyn ysgol y maent yn berthnasol iddi.

Roedd Gweinidogion Cymru o'r farn nad oedd y dyddiadau tymor a gyflwynwyd gan awdurdodau lleol ar gyfer 2026-27 yr un fath nac mor debyg â phosibl i'w gilydd. Felly, ystyriodd Gweinidogion Cymru ddefnyddio eu pwerau cyfarwyddo o dan Ddeddf 2002 i sicrhau bod dyddiadau tymhorau mor debyg â phosibl ledled Cymru.

Fodd bynnag, cyn y gallant ddefnyddio eu pŵer cyfarwyddo, mae Deddf 2002 yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gynnal ymgynghoriad priodol fel y nodir yn Rheoliadau Addysg (Ymgynghori ar Ddyddiadau Tymhorau Ysgol) (Cymru) 2014.

## Yr ymgynghoriad

Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am farn ar y dyddiadau tymhorau arfaethedig a ganlyn ar gyfer pob ysgol a gynhelir yng Nghymru ar gyfer y flwyddyn ysgol 2026-27.

| | |
|---|---|
| **Dechrau tymor yr hydref a diwrnod cyntaf y flwyddyn ysgol** | Dydd Mawrth 1 Medi 2026 |
| **Hanner tymor yr hydref** | Dydd Llun 26 Hydref 2026 tan ddydd Gwener 30 Hydref 2026 |
| **Diwedd tymor yr hydref** | Dydd Gwener 18 Rhagfyr 2026 ar gyfer pob ysgol ac eithrio rhai Powys<br><br>Bydd tymor yr hydref yn dod i ben ddydd Mawrth 22 Rhagfyr 2026 ar gyfer ysgolion Cyngor Sir Powys yn unig |
| **Dechrau tymor y gwanwyn** | Dydd Llun 4 Ionawr 2027 |
| **Hanner tymor y gwanwyn** | Dydd Llun 8 Chwefror 2027 tan ddydd Gwener 12 Chwefror 2027 |
| **Diwedd tymor y gwanwyn** | Dydd Gwener 19 Mawrth 2027 |
| **Dechrau tymor yr haf** | Dydd Llun 5 Ebrill 2027 |
| **Hanner tymor yr haf** | Dydd Llun 31 Mai 2027 tan ddydd Gwener 4 Mehefin 2027 |
| **Diwedd tymor yr haf a diwrnod olaf y flwyddyn ysgol** | Dydd Mawrth 20 Gorffennaf 2027 ar gyfer pob ysgol ac eithrio rhai Powys<br><br>Bydd tymor yr haf yn dod i ben ddydd Gwener 16 Gorffennaf 2027 ar gyfer ysgolion Cyngor Sir Powys yn unig. |


## Crynodeb o’r ymatebion i’r ymgynghoriad

Roedd yr ymgynghoriad ar agor am 12 wythnos (3 Mawrth hyd 25 Mai 2025) a derbyniwyd 440 o ymatebion, gyda 385 ohonynt yn cynnwys ateb llawn i gwestiynau 1 a 2.

Roedd y rhan fwyaf o’r cwestiynau yn gofyn am ateb 'cytuno', 'anghytuno', neu 'ddim yn cytuno nac yn anghytuno', ynghyd ag unrhyw sylwadau ategol. Ni wnaeth pob ymatebydd ateb pob cwestiwn, yn enwedig cwestiynau 3 i 7. Fodd bynnag, ystyriwyd yr holl ymatebion a atebodd o leiaf un cwestiwn neu a roddodd sylwadau ar y cynigion.

Mae'r canrannau a ddangosir ym mhob un o'r tablau isod wedi'u seilio ar y nifer a atebodd y cwestiwn hwnnw. Nid yw'r crynodeb hwn yn gofnod cynhwysfawr o'r holl sylwadau a wnaed, ac nid yw absenoldeb mater penodol yn nodi ei fod wedi'i anwybyddu na'i fod yn llai pwysig.

**Cwestiwn 1: A ydych yn cytuno y bydd dyddiadau tymhorau sydd mor debyg â phosibl i'w gilydd ledled Cymru yn helpu rhieni, gofalwyr, teuluoedd a busnesau i gynllunio?**




Mynegodd cyfran sylweddol o'r ymatebwyr (84%) gefnogaeth i ddyddiadau tymhorau ysgol sydd mor debyg â phosibl ledled Cymru. Mae'r consensws cryf hwn yn tynnu sylw at bwysigrwydd cysondeb ar draws awdurdodau i gefnogi rhieni, gofalwyr, teuluoedd a busnesau yn well wrth gynllunio ymlaen llaw.


Mae'r adborth yn tynnu sylw at ffafriaeth glir ar gyfer dull mwy cydgysylltiedig tuag at ddyddiadau tymhorau ysgol, gyda llawer yn awgrymu y byddai cysoni yn lleihau dryswch, gan wella cynllunio ar gyfer llawer o ysgolion, sectorau a theuluoedd.

O ran yr ymatebwyr a oedd yn anghytuno neu a oedd yn niwtral, nid oeddent o reidrwydd yn teimlo nad oedd dyddiadau annhebyg ledled Cymru yn broblem nac yn cael llawer o effaith. Roedd synnwyr cryf gan rai ymatebwyr eu bod yn teimlo y byddai gwahaniaeth mewn dyddiadau tymhorau mewn gwirionedd yn helpu teuluoedd i fanteisio ar wyliau rhatach heb chwyddiant, llai o dagfeydd mewn ardaloedd twristaidd, ac yn darparu mwy o hyblygrwydd.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Er bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o blaid cysoni dyddiadau tymhorau ysgol, rydym yn llwyr gydnabod ac yn gwerthfawrogi adborth gan y rhai nad oeddent o'r farn honno. Nod y polisi sydd wrth wraidd adrannau 32A a 32B o Ddeddf Addysg 2002 yw dileu anghysondebau mewn dyddiadau tymhorau a allai achosi anawsterau i rieni a staff. Credwn fod dyddiadau tymhorau cyson nid yn unig yn cefnogi teuluoedd ac addysgwyr ond hefyd yn darparu manteision i'r sector twristiaeth. Ar y cyfan, rydym o'r farn bod yr amcanion polisi hyn yn gorbwyso'r dadleuon dros ddyddiadau gwahanol ar gyfer gwyliau'r gwanwyn a gyflwynwyd gan rai awdurdodau lleol.

**Cwestiwn 2: A ydych chi'n yn cytuno â'n cynigion o ran dyddiadau tymhorau ysgol ar gyfer blwyddyn ysgol 2026 i 2027 a'r cyfarwyddyd drafft arfaethedig?**




Ar gyfer cwestiwn 2, cytunodd 57% o'r ymatebwyr â'r dyddiadau tymhorau arfaethedig ar gyfer y flwyddyn ysgol 2026–2027 a'r cyfarwyddyd drafft cysylltiedig.

Roedd adborth cefnogol yn tynnu sylw at ymarferoldeb y cynnig, yn enwedig wrth gynorthwyo athrawon a disgyblion sy'n mynychu neu'n gweithio mewn ysgolion ar draws gwahanol awdurdodau lleol. Roedd yr ymatebwyr yn gwerthfawrogi'r cysondeb y mae'n ei gynnig a'r ffaith na fyddai angen hollti wythnosau, a allai effeithio ar bresenoldeb dysgwyr fel arall. Roedd sicrhau cysondeb â Phowys hefyd yn cael ei ystyried yn rhywbeth cadarnhaol, gan fod hynny'n cefnogi ymgysylltiad diwylliannol heb darfu ar addysg. Ar y cyfan, roedd ffafriaeth amlwg i ddull cyson ledled Cymru o ran dyddiadau tymhorau ysgol, gyda llawer yn galw am ystyried dyddiadau penodol yn y dyfodol.

O'r 32% a oedd yn anghytuno â'r cynnig a'r cyfarwyddyd drafft, y prif bryder oedd yr anghydbwysedd yn hyd y tymhorau; roedd rhai tymhorau yn cael eu hystyried naill ai'n rhy

fyr neu'n rhy hir, gyda'r dyddiadau a gynigiwyd gan awdurdodau lleol eraill yn cynnig calendr wedi'i ddosbarthu'n fwy cyfartal.

Fe wnaeth llawer o'r ymatebwyr fynegi siom y gallai athrawon a staff ysgol golli allan ar wyliau banc, gan nodi nad oedd cysoni â gwyliau ysgol Lloegr wedi'i ystyried yn ddigonol, yn enwedig ar gyfer y rhai sy'n byw yng Nghymru ond yn gweithio neu'n astudio dros y ffin. Hefyd, roedd rhai yn teimlo ei bod yn annheg rhoi eithriad i Bowys ar gyfer Sioe Frenhinol Cymru, gan ystyried hynny fel triniaeth ffafraethol.

### Ymateb Llywodraeth Cymru

Rydym yn cydnabod yn llwyr bod manteision ac anfanteision i gysoni dyddiadau tymhorau ysgol, ac mae pob pwynt a godwyd wedi'i werthuso.

Mae'n bwysig pwysleisio nad yw Powys yn cael triniaeth ffafraethol, ond yn hytrach ystyriaeth oherwydd yr heriau lleol unigryw a ddaw yn sgil y Sioe Frenhinol. Er enghraifft, caiff trafnidiaeth i ysgolion ei addasu at ddibenion eraill yn ystod y cyfnod hwn, ac mae tagfeydd traffig trwm yn ei gwneud yn anodd iawn teithio i'r ysgol ac oddi yno. Fodd bynnag, mae'r eithriad hefyd yn gwasanaethu diben ehangach: hyrwyddo cyfranogiad diwylliannol a galluogi teuluoedd a staff mewn awdurdodau lleol cyfagos i fynd i'r digwyddiad.

Ni chafwyd llawer o ymatebion i gwestiynau 3 i 7 a chafodd y rhain eu hanwybyddu gan y rhan fwyaf o ymatebwyr. Er bod yr adborth a ddarparwyd wedi'i adolygu a'i ystyried, nid oedd yn dylanwadu ar negeseuon craidd na chanlyniadau'r ymgynghoriad.

## Casgliad

Rydym yn ddiolchgar i'r nifer o unigolion a sefydliadau a roddodd o'u hamser i ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

Mae'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno ac yn cefnogi'r dyddiadau tymor ysgol arfaethedig ar gyfer 2026 i 2027, yn ogystal â'r cyfarwyddyd drafft. O ganlyniad, mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg wedi cytuno i fwrw ymlaen â'r dyddiadau arfaethedig, fel yr amlinellir yn y tabl uchod, ac i ddyroddi'r cyfarwyddyd i awdurdodau lleol i gadarnhau'r dyddiadau a gwneud y trefniadau angenrheidiol gyda'u hysgolion.

## Atodiad

### Rhestr o'r ymatebwyr

Isod mae'r rhestr o ymatebwyr a roddodd eu gwybodaeth gyswllt ac eithrio unrhyw un a lenwodd y ddogfen ymgynghori yn ddienw.

| |
|---|
| Luisa Munro-Morris |
| Kim Scriven |
| Mollie |
| Reg White |
| Keith Billington |
| Mark |
| Anna Britten |
| Steve |
| Jolene Grainger |
| Sarah Jenkins |
| Christopher Powell |
| Hayley Clark |
| Jessica Gardiner |
| Beth Jones |
| Kevin Stroud |
| Louise Brown |
| Sian Thomas |
| Sarah |
| Kate L Card |
| Julie Lewis |
| Alyson Dabernig |
| Anna Kepinska |
| K Jones |
| Debbie Carson |
| Graeme Clarke |
| Gareth Rhodri Jones |
| John Weir |
| Alex Barons |

| |
|---|
| Rhian Owen |
| Colette Baines |
| Rachael Hughes |
| Rebecca Fox |
| Bronwen Prytherch |
| KE |
| R Davies |
| Gareth Tidmarsh |
| Mr Chesworth |
| Emma Lewis |
| Adele Pugh |
| Neil Pryce |
| Mark |
| Karl Roberts |
| Alisha Newman |
| Sue |
| anna smith |
| Rhian Miller |
| Delyth Hartshorne |
| Alison Blasdale |
| Helen Ashby-Ridgway |
| Llinos Jones |
| Dr Llinos Jones |
| Jan |
| Scott Hann |
| Sian Evans |
| Joanne Brace |
| Jemma |
| K garratt-smith |
| Liane Forster |
| L John |
| Karla Bagnall |
| Gareth Evans |
| Fr Robert James |
| Arwel Wood |
| Lucy Warr |
| Amy Waldron |
| Sarah Hearne |
| Naomi Poole |
| Rochelle Parker |
| Miss Petra Davies |
| Michelle Barry |
| Simon Roberts |
| Emma Coates |
| Richard Martin |
| Sam Roberts |
| Leanne Parsons |

| |
|---|
| Catryn Hampton |
| Chris Newcombe |
| Danielle Evans |
| Michelle Harvey |
| Nicki Pickens |
| Ian Evans |
| Sarah Barker |
| Mitchell |
| Rachel English |
| Jason Reynolds |
| Richard Walters |
| Julie Lloyd |
| Kellie Bellmaine |
| Kathryn Dean |
| Ceryn |
| Rebecca Donkin |
| Kirsty Ellis-Johnson |
| A Santiago |
| Natalie Sophie Shaw |
| Sian Theobald |
| Rhianydd |
| Catryn Lawrence-Morgan |
| Sian Hoskins |
| Lindsey Hastings |
| Heather Meiring |
| Carolyn |
| Tracey Lewis |
| Nicole Simons |
| Tracy Sweetland-Hodges |
| Bev Cheetham |
| Manon Williams |
| Ursula Brookes |
| Helen Margaret Borley |
| Sian Lewis-Sullivan |
| Katie Eadie |
| Clare Ball |
| Caryl Jones |
| Jenny Drogan |
| Lauren Pell |
| Claire Scott |
| E. Williams |
| Rosie Foley |
| Sara Hannon |
| CT |
| Julie Fairhurst |
| Amy Livesey |
| Suzanne Williams |

| |
|---|
| Melany McKenna |
| Lauren |
| Bernadette Gray |
| Lisa Armstrong |
| Fiona Thomas |
| Harriet Hanmer |
| Jayne Doyle |
| Sophie Williams |
| Sian |
| J RICHARDSON |
| Marc Bowen |
| Matt Williams |
| Rick Littlejohn |
| Angharad Prys Evans |
| Katy Gullam |
| Jamie Rees |
| Rebecca Richards |
| Iwan Thomas |
| Fran Jordan |
| Sarah-Jayne Bartley |
| Catrin Williams |
| Sarah |
| Mark |
| Ms R S Williams |
| Elise Brydon |
| Nick |
| Geraint Phillips |
| david dunbar |
| Tim Marshall |
| Adam Faries |
| Daniel Clegg |
| Kelly |
| Lynette Breeze |
| Charlotte |
| Lesley Jones |
| Steven Aicheler |
| Alexander Phillips |
| katy Jenkins |
| Matthew McGregor |
| Sharon Parr |
| R Lambert |
| Kate Parsons |
| Natasha shahriveri |
| Kathryn |
| Alec Mills |
| Jo Carey |
| Gabi |

| |
|---|
| Clare Nichols |
| Pania wilks |
| Amanda Evans |
| Jonathan Griffith |
| Gemma Machin |
| H |
| Aaron Williams-Cross |
| Emily Finley |
| Laura Lacey |
| David Finley |
| Laura Lacey |
| Sally Flynn |
| Bec Williams |
| Siân Neilson |
| Rhian Were |
| Katie Smith |
| Rhiannon Miles |
| Debbie Ellis |
| Sarah Leigh |
| Emily le grice |
| Claire Williams |
| James Ban |
| Brendan Devine |
| Hannah |
| Rebecca Moore |
| LB |
| Jane Crank |
| Emily Griffith |
| Hefin Hammett |
| Ruth |
| Mr Rhodri James Evans |
| Emrys Roberts |
| Melanie Anderson |
| Karen Evans |
| Owain Harpwood |
| Naomi Ewins |
| Kathryn May |
| Elliw Williams |
| Tina |
| Emily Backhouse |
| Paula Colebrook |
| Adam stamenkovic |
| Kimberley Bourne-Rowlands |
| Michelle Jones |
| Karen |
| Adrian |

| |
|---|
| Sara Thomas |
| Judith Burnett |
| Meruig Jones |
| Scott Hann |
| Emily Currie |
| Emma Pearson |
| Luke Pearson |
| Kelly frazier |
| Amy Evans-James |
| Emily |
| C Bennett |
| Lloyd |
| MRS SARAH L JOHNSON |
| Jodie jones |
| Christopher Evans |
| Nerys Usher |
| Angela Prickett |
| Williams |
| Gillian Connolly |
| Mark |
| Janet Hayward |
| Dilys Jouvenat |
| Claire Wilkinson |
| Chris |
| Em |
| Sian Meredudd |
| Chris North |
| Cath |
| Angharad Davies |
| Buddug Lewis |
| Carys A Thomas |
| Rhys Davies |
| Tanya Tranter |
| John Thomson |
| Sarah Owen |
| Anna-Marie Cox |
| Natalie Martin |
| Mrs S James |
| L Brown |
| Jack Kelly |
| Rebecca Holland |
| K McIver |
| Kathryn Ann Chedgzoy |
| Louise Howells |
| Edwin E Hughes |
| Hanna williams |

| |
|---|
| G Brown |
| Angela Hughes |
| Helen Lewis – Neath Port Talbot County Borough Council |
| Claire |
| Kathryn Warwood – Torfaen County Borough Council |
| Deborah Weston – Newport City Council |
| Jenny Jones |
| Merthyr Tydfil County Borough Council |
| Hannah |
| Emily Nicholson |
| Iona Davies - UCAC |
| Gemma Haines - FUW |
| Jane Robinson |
| Annette |
| Em Jones |
| M H |
| Carla Hughes – Wrexham County Borough Council |
| Josh |
| David Roe |
| Mark Booth |
| Gregg Davies |
| Grant McKenzie |
| Felicity Westlake |
| Martin Hodge |
| Helen Smith |
| Diane Phillips |
| Gareth Parry |
| Gareth Williams |
| Bryony Bromley |
| Owen Evans |
| Gwion Dafydd |
| Owen Evans - Estyn |
| Jennifer |
| Neil Butler - NASUWT |
| Richard Williams |
| Matthew Jones – Monmouthshire County Council |